# 1.0 CRYNODEB GWEITHREDOL

## 1.1 Cyffredinol

1.1.1 Mae'r adroddiad hwn yn ffurfio rhan o gais cynllunio amlinellol sy'n ceisio sicrhau cysondeb ar gyfer ail-ddatblygu'r hen waith alwminiwm ym Mhenrhos, Caergybi, Ynys Môn.

1.1.2 Mae'r safle wedi'i leoli i'r de o'r A5 (Ffordd Llundain) ac i'r dwyrain o Ystâd Ddiwydiannol Penrhos.

1.1.3 Ar hyn o bryd mae'r safle yn cynnwys adeiladau segur, ffyrdd a phafinau a.y.y.b. o'r hen gyfadeilad diwydiannol ynghyd ag ardaloedd o lystyfiant, sy'n ymestyn o ran ardal i hyd at oddeutu 87.9Ha.

## 1.2 Perygl Llifogydd

1.2.1 Mae safle'r cais wedi'i lleoli gan mwyaf ym Mharth Llifogydd 1 (y lleiaf o beryg llifogydd). Mae yna gyfran fechan o'r safle yn agos at y blaen gyda ffordd yr A5 yn cael ei dangos o fewn Parth Llifogydd 3 (perygl uchel o lifogydd). Fodd bynnag, nid oes unrhyw ddatblygiad adeiledig yn yr arfaeth ar gyfer yr ardal hon a fydd yn cael ei chadw fel rhan o'r isadeiledd gwyrdd ar y safle a darpariaeth tirlunio.

1.2.2 Dangosir bod Parth Llifogydd 3 yn dueddol o ddioddef llifogydd oherwydd y môr.

1.2.3 Ni ddangosir bod y safle mewn ardal a allai gael ei heffeithio gan lifogydd y gronfa ddŵr.

1.2.4 Bydd mesurau lliniaru perygl o lifogydd angen cael eu hymgorffori yng nghynllun y datblygiad newydd er mwyn mynd i'r afael â pheryglon llifogi.

## 1.2 Gwaredu Dŵr Wyneb

1.2.1 Mae'n ofynnol o fewn Polisi Cynllunio a Chanllawiau Llywodraeth Cymru : Bod Polisi Cenedlaethol i ddarparu system ddraenio drefol gynaliadwy (SuDS) er mwyn lliniaru perygl gan lifogydd a llygredd a achosir gan ddŵr wyneb sy'n llifo o gae o'r datblygiad arfaethedig.

1.2.2 Mae amrywiol SuDS ar gael i'w hystyried, a bydd ei darparu yn mynd i'r afael â phedair colofn SuDS. Gall cyfyngiadau o fewn y safle, argaeledd tir, lefelau dŵr

ar y ddaear a chynllun y safle fod yn ffactorau dylanwadol ar gyfer dyluniad system ddraenio briodol sy'n ymgorffori elfennau SuDS.

1.2.3 Mae map yr Arolwg Daearegol Prydeinig yn dangos bod y ddaeareg leol yn cynnwys dyddodiadau arwynebol o Till, Defensian – Diamicton mewn haen yn gorchuddio creigwely sy'n cynnwys Grŵp Harbwr Newydd – Mica, Sgist a Psamit.

1.2.4 Gan hynny nid yw cyflwr y ddaear yn addas ar gyfer defnyddio ymdreiddiad fel dull o waredu'r dŵr wyneb sy'n llifo o gae o'r datblygiad.

1.2.5 Roedd y dŵr wyneb o'r cyn safle diwydiannol wedi llifo'n syth, heb unrhyw rwystr, i Fae Caergybi drwy ddwy bibell 1800mm mewn diamedr.

1.2.6 Cynigir y dylai'r dŵr wyneb o'r cyn safle diwydiannol ddefnyddio'r ollyngfa bresennol.

1.2.7 Ar sail hyn ni fyddai'n ofynnol i storfa ar gyfer unrhyw ddŵr wyneb gael ei ddarparu ar gyfer y datblygiad newydd.

1.2.8 Bydd y cynllun draenio dŵr wyneb angen caniatáu ar gyfer cynnydd o 40% oherwydd newid hinsawdd (gellir canfod mwy o fanylion o fewn Adran 7).

## 1.3 Gwaredu Dŵr Budr

1.3.1 Argymhellir y bydd y dŵr budr sy'n llifo oddi ar gae o'r datblygiad newydd yn cael ei drawsgludo i'r rhwydwaith carthffosiaeth cyhoeddus presennol ac yn dilyn hynny i'r orsaf bwmpio dŵr budr, sydd wedi'i lleoli i'r gogledd-orllewin o safle'r datblygiad.

## 1.4 Rhagor o Wybodaeth

1.4.1 Bydd angen manylion am adeiladau ac isadeiledd newydd sy'n gwasanaethu'r datblygiad er mwyn gallu ymgymryd â'r cynlluniau draenio dŵr budr.

1.4.2 Bydd angen datblygu'r safle gyda systemau draenio dŵr budr a dŵr wyneb ar wahân.

1.4.3 Bydd angen i fanylion ynghylch unrhyw ofynion gwaredu elifion masnach, os ydynt yn berthnasol, fod wedi eu sefydlu a bod cytundeb yn ei le gyda Dŵr Cymru o ran gwaredu unrhyw elifion o'r fath. Fodd bynnag, ar y cam cynllunio amlinellol hwn, nid yw defnyddwyr terfynol a phreswylwyr a manylion am eu gweithgareddau yn hysbys nac wedi'u cadarnhau.